COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MERCHER, 29 MAI 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PJ White – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| MC Clarke | N Clarke | HJ David | DK Edwards |
| J Gebbie | CA Green | D Patel | CE Smith |
| CA Webster | DBF White | HM Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Elizabeth Walton-James | Rheolwr Grŵp - Diogelu a Sicrhau Ansawdd |

195. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim Datganiadau o Fuddiant

196. CYMERADWYO COFNODION

CYTUNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet, dyddiedig 6 Mawrth 2019, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

197. ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Cyflwynodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant adroddiad, a ddarparodd wybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag Adolygiad Ymarfer Plant diweddaraf Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, rhoddodd y Rheolwr Grŵp, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd gyflwyniad *PowerPoint* er budd yr Aelodau, a oedd yn ymdrin â meysydd allweddol canlynol yr adroddiad eglurhaol.

Yn 2013, disodlodd Adolygiadau Ymarfer Plant yr hyn a elwid yn Adolygiadau Achos Difrifol (AAD). Mae'r broses newydd hon yn deillio o adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 - Gwella Arfer i Amddiffyn Plant yng Nghymru: Archwiliad o Rôl Adolygiadau Achos Difrifol. Roedd y gwaith hwn yn ganolog i ble'r ydym ni heddiw, gan ddod i'r casgliad bod angen gweithredu i ddisodli'r broses AAD a oedd wedi mynd yn aneffeithiol o ran gwella arfer a gweithio rhyngasiantaethol.

Mae'r canllawiau'n nodi'r trefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant aml-asiantaeth pan fydd digwyddiad difrifol wedi digwydd lle mae cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau.

Pwrpas cyffredinol diwygio'r system adolygu yw hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu amddiffyn plant aml-asiantaeth mewn ardaloedd lleol. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yn gyfrifol am sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol. Bydd adolygiadau yn y dyfodol am unrhyw blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dod o dan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg.

Adolygiadau Cryno: cynhelir Adolygiad Ymarfer Plant 'cryno' mewn achosion lle mae cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau ac mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi dioddef anaf a allai fygwth ei fywyd; neu
- nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn y gofelir amdano ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod.

Adolygiadau Estynedig: cynhelir Adolygiad Ymarfer Plant 'estynedig ' mewn achosion lle mae cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau ac mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi dioddef anaf a allai fygwth ei fywyd; neu
- wedi dioddef niwed difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad; ac
- roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant ac / neu yn blentyn y gofelir amdano (gan gynnwys unigolion o dan 18 oed sy'n ymadawyr gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad a gyfeirir ato uchod.

Esboniodd ymhellach fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant ar 17 Ebrill 2019. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Ionawr 2018 ac fe'i comisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin yn dilyn nodi pryderon lle bodlonwyd y meini prawf uchod ar gyfer 'adolygiad cryno'. Mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â phlentyn 9 wythnos oed a fu farw yn ystod y nos wrth gyd-gysgu â'i rieni.

Testun yr adolygiad hwn oedd plentyn 9 wythnos oed a fu farw ym mis Tachwedd 2017 wrth gyd-gysgu â'i rieni. Yn dilyn archwiliad post mortem amhendant a chwest crwner a ddaeth i gasgliad 'dyfarniad agored', ystyriwyd bod y farwolaeth o ganlyniad i Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS).

Rhwng 2008 a 2017, derbyniwyd 10 atgyfeiriad o ran mam y plentyn a oedd o dan 18 oed ar adeg genedigaeth y plentyn oherwydd ansefydlogrwydd teuluol, digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl. Nododd yr adolygiad nad oedd gwybodaeth sylweddol ynglŷn â'r materion hyn yn cael ei rhannu rhwng gweithwyr proffesiynol, yn enwedig rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol.

Derbyniwyd 9 atgyfeiriad hanesyddol ynglŷn â thad y plentyn pan oedd yn blentyn. Roedd y tad hefyd "mewn gofal" am gyfnodau byr oherwydd iechyd meddwl gwael ei fam a cham-drin domestig yn y teulu.

Er nad oedd unrhyw beth i awgrymu y gallai marwolaeth y baban fod wedi'i hatal, roedd tystiolaeth o fewn y cyfnod amser y gallai'r teulu ifanc fod wedi elwa o asesiad cyn-enedigaeth a gwasanaethau cymorth targedig.

Ar adeg marwolaeth y baban, roedd y teulu ifanc yn byw mewn llety rhent preifat ac roedd eu strwythur cymorth teuluol yn aneglur. Nid oeddent yn derbyn unrhyw ymyrraeth gan yr awdurdod lleol a nodwyd bod amodau'r cartref wedi dirywio.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd mai'r themâu a amlygwyd gan yr adolygiad oedd:

- Nid oedd y meddyg teulu yn rhannu gwybodaeth berthnasol am iechyd meddwl y fam gyda'i gydweithwyr iechyd ac ni archwiliwyd yn ddigonol faint o gefnogaeth deuluol oedd ar gael i'r rhieni.
- Ni chafodd y fam ei hasesu yn ei rhinwedd ei hun fel plentyn ac nid oedd asesiad y plentyn yn ystyried y ffactorau risg ehangach am brofiadau'r rhiant, e.e. cam-drin domestig gan rieni, iechyd meddwl, diffyg cefnogaeth deuluol.
- Ni chynhaliwyd asesiad risg penodol er mwyn ystyried y materion uchod.
- Deliwyd ag atgyfeiriadau ar eu pennau eu hunain, ac roeddent yn canolbwyntio ar dai yn bennaf.
- Ni chyflwynwyd adroddiadau i'r Heddlu gan asiantaethau am y fam yn cael rhyw o dan oed.

Bydd gweithrediad y camau a argymhellir yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd i Grwpiau Rheoli ac Adolygu Ymarfer Plant Bae'r Gorllewin a Chwm Taf. Yn ogystal, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu digwyddiadau dysgu tîm ar gyfer ymarferwyr a bydd y canfyddiadau'n cael eu hymgorffori mewn hyfforddiant diogelu craidd ar gyfer gweithwyr.

Gwnaeth Aelod y pwynt y gallai gwell llinellau cyfathrebu rhwng partneriaid atal sefyllfaoedd fel yr uchod rhag codi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r Arweinydd yn ei dro, fod partneriaid allweddol yn gweithio'n agos a bod gwell ymgysylltiad wedi digwydd rhwng rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig ers i'r gwahanol asiantaethau osod System TG Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Roedd hyn wedi arwain at welliant amlwg o ran y dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ofalu am y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, fel yr ifanc a'r henoed, gan gynnwys y rhai sydd wedi profi problemau yn ystod eu bywydau.

CYTUNWYD: Bod y Pwyllgor Cabinet wedi nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig.

198. DULLIAU O YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU AG YMADAWYR GOFAL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a ddarparodd ddiweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r dulliau a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i ymgysylltu ac ymgynghori ag ymadawyr gofal. Yn ogystal, darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar y digwyddiad Ymgysylltu â'r Arolygiaeth Gofal a gynhaliwyd gydag ymadawyr gofal ym mis Tachwedd 2018.

Ar y cyd â'r eitem hon, roedd cynrychiolwyr o *Voices From Care Cymru* (VFCC) yn bresennol yn y cyfarfod i roi cyflwyniad *PowerPoint*. Mae'r sefydliad hwn yn darparu digwyddiadau wedi'u trefnu i hyrwyddo ymgysylltu â phobl ifanc, yn enwedig y rheiny sydd mewn gofal / sy'n gadael gofal. Yn ogystal, cefnogir y sefydliad gan Grŵp Cynghori sy'n weithredol mewn gwahanol ranbarthau yng Nghymru, ac mae nifer o aelodau'r grŵp hwn yn ymadawyr gofal.

Gwahoddwyd y Cadeirydd Ms Deborah Jones, Prif Weithredwr VFCC, a Chris Dunn, Rheolwr Rhaglenni VFCC, i gyflwyno eu cynnig.

Rhoddodd y cyflwyniad sylw i'r themâu canlynol:

**Cyflwyniad:**

- Mae'r sefydliad yn gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ledled Cymru;
- Arweinir y sefydliad gan bobl ifanc;
- Mae'r sefydliad yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau am eu bywydau, a hefyd bywydau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn genedlaethol;
- Nod y sefydliad yw datblygu cymuned gref o bobl sydd â phrofiad o ofal;
- Mae gwasanaethau'r sefydliad yn cynnwys cyfranogiad, dylanwadu a llesiant;
- Lleolir y sefydliad yng Nghaerdydd. Cafodd ei sefydlu ym 1990 ac mae'n cyflogi 13 o staff.

**Gwerthoedd y Sefydliad:**

Cael ei arwain gan bobl ifanc

Mae popeth y mae VFCC yn ei wneud yn cael ei arwain gan blant â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr VFCC yn cynnwys pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ac rydym yn ymgynghori yn aml â phlant â phobl ifanc ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Cydraddoldeb i bawb sydd mewn gofal

Credwn y dylai plant â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion sydd heb unrhyw brofiad o ofal. Ni ddylent wynebu stigma, anffafriaeth a rhwystrau mewn bywyd oherwydd eu profiad o ofal.

Creu Teulu Gofal

Mae VFCC yn darparu cyfleoedd i blant â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gwrdd, tyfu, dysgu a datblygu perthnasoedd hirhoedlog.

Bod yn Ddyheadol

Mae VFCC eisiau i blant â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fod yn bopeth y gallant fod. Rydym ni eisiau eu hysbrydoli nhw a meithrin eu potensial.

Dathlu'r Unigolyn

Mae VFCC yn sefydliad unigryw ac rydym yn cydnabod ac yn dathlu unigolrwydd ac amrywiaeth y plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw. Mae cefndiroedd, profiadau a safbwyntiau gwahanol y plant a'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ein helpu ni i ddatblygu fel sefydliad ac i gynrychioli'r boblogaeth gofal ehangach yn well.

**Mentrau Allweddol:**

1. Grwpiau Rhanbarthol;

2. Grwpiau Cyfranogi Lleol;

3. Grwpiau Ymgynghori Cenedlaethol;

4. *Proud to Be Me*;

5. Digwyddiad *CareDay*;

6. Dathliad yr Haf;

7. Prosiect *When I Am Ready*;

8. Côr *Sing Proud*.

Mae VFCC wedi dylanwadu ar waith ym maes Perthnasoedd Brodyr a Chwiorydd; Pasportiau (hynny yw, dogfen hunaniaeth ategol); Cefnogi Mamau Ifanc a darparu rôl Rhianta Corfforaethol.

Dywedodd y cynrychiolwyr wrth yr Aelodau mai'r tri phwnc mwyaf poblogaidd y mae pobl ifanc yn eu rhannu â VFCC yw:

- Stigma sy'n gysylltiedig â phrofiad o ofal
- Y cymorth sydd ar gael wrth adael gofal
- Materion sy'n gysylltiedig â llesiant emosiynol

Cynorthwyodd mecanweithiau cymorth fel y rhai uchod i atal unigolion o fod angen cymorth CAHMS ac ati.

**Dyheadau VFCC ar gyfer y System Ofal**

1. "Beth fyddwn i'n ei wneud pe bai hwn yn blentyn i mi?"
2. "Dyheadol"
3. "Ysbrydoledig"
4. "Meithrin"
5. "Cyfannol"
6. "Ffocws ar Lesiant Emosiynol"
7. "Ymagwedd Unedig"
8. "Gobeithion a Breuddwydion"
9. "I ddatblygu'r unigolyn, nid ystadegyn"

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr VFCC am fynychu'r cyfarfod ac am gyflwyniad mor ddiddorol ac addysgiadol.

Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth VFCC ei bod yn edrych ymlaen at weld ei thîm yn ymgysylltu â'r sefydliad yn y dyfodol.

Ychwanegodd fod y timau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yn gwneud llawer o waith da yn cefnogi pobl a gofalwyr ifanc, er bod lle i wella ymhellach.

Cadarnhaodd fod y tîm 16+ yn gweithio â phobl mewn gofal hyd at 25 oed, gan ddarparu cymorth effeithiol i unigolion yn y grŵp oed hwn er mwyn darparu cymorth i ddiwallu eu hanghenion gwahanol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bob tro'n cynnal asesiad risg o berson ifanc cyn iddynt gael eu rhoi mewn unrhyw sefyllfa ofal. Ychwanegodd fod nifer o brosiectau ar waith i atal pobl ifanc rhag cael eu rhoi mewn gofal os oedd modd osgoi hynny. Aeth ymlaen i esbonio bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi trwy Strategaeth Emosiynol a Llesiant y Cyngor, sy'n waith ar y gweill.

Yn ogystal, mae cyrff fel Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn monitro effeithiolrwydd y mecanweithiau cymorth sydd gan yr Awdurdod ar waith ar gyfer pobl ifanc yn rheolaidd, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Fe wnaeth gwaith gyda chydweithwyr iechyd hefyd helpu i ddatblygu llwybrau cymorth yn barhaus.

Gofynnodd Aelod sut mae'r system ofal yng Nghymru yn cymharu â'r un yn Lloegr a gwledydd eraill yn Ewrop.

Esboniodd Prif Weithredwr VFCC fod trefniadau gofal cynyddol ar waith yng Nghymru o gymharu â Lloegr (ar sail pro rata), oherwydd bod sefydliadau sy'n darparu gofal yng Nghymru yn gyndyn iawn i fentro. Nid oedd yn gallu gwneud cymhariaeth â gwledydd eraill yn Ewrop, tu allan i'r DU, er y gallai ddod o hyd i'r wybodaeth ac adrodd yn ôl i'r Aelod(au) y tu allan i'r cyfarfod.

Gwnaeth Aelod y pwynt bod rhaid ystyried materion sy'n gysylltiedig ag yswiriant wrth ddelio â phobl sy'n cael eu rhoi mewn gofal preswyl. Y rheswm am hyn yw nad oes deddfwriaeth ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru na'r DU yn ehangach, sy'n caniatáu i bobl mewn gofal gael eu hatal yn gorfforol gydag unrhyw rym. O ganlyniad, roedd y bobl ifanc a'r gofalwyr hynny fel ei gilydd yn agored i lefel o risg. Yn ei barn hi, mae angen datblygu polisi a darparu arweiniad mewn cysylltiad â'r uchod.

Dywedodd Prif Weithredwr VFCC y byddai'n trafod yr uchod gydag ymddiriedolwyr y sefydliad, yn ogystal â chysylltu â'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y mater oherwydd roedd hi'n cytuno y gallai arwain at sefyllfa hynod ddifrifol.

I grynhoi'r drafodaeth ar yr eitem hon, dywedodd yr Arweinydd ei fod ef, y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet – Cymunedau, wedi cwrdd â Phrif Gomander yr Heddlu yn ddiweddar i drafod sut gallai sefydliadau allweddol perthnasol gydweithio'n agosach, gyda'r nod o sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eisiau i bobl ifanc gael mwy o gyfleoedd i leisio'u barn, o gymharu â'r gorffennol, ac i ystyried eu safbwyntiau ar faterion penodol. Ychwanegodd ei fod o'r farn y byddai'n fanteisiol petai cynrychiolydd o Heddlu De Cymru ac Awdurdod Iechyd Cwm Taf (a chynrychiolwyr o bartneriaid iechyd eraill) yn cael eu gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i drafod gwella bywydau pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n rhan o'r system ofal.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr VFCC am fynychu cyfarfod heddiw ac am ddarparu cyflwyniad mor ddiddorol ac addysgiadol.

| | |
|---|---|
| <u>CYTUNWYD:</u> | Y dylid nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig a, phe byddai yn unol â dymuniadau, teimladau ac anghenion pobl ifanc (Pen-y-bont ar Ogwr), dylai'r Fforwm Ymadawyr Gofal gael ei ailsefydlu ym mis Gorffennaf 2019, a dylai adroddiad gael ei gyflwyno mewn cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet yn y dyfodol yn amlinellu cynnydd am yr uchod. |

199. <u>PLANT Y GOFELIR AMDANYNT – GRŴP TECHNEGOL CENEDLAETHOL</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cabinet am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau lleihau disgwyliadau gyda phob awdurdod lleol ledled Cymru.

Yn ogystal, disgrifiodd yr adroddiad y broses sydd ar waith i fwrw ymlaen â hyn a'r gweithgarwch lleol sydd ar y gweill.

Cafwyd cyflwyniad ar y prif ddata lleol / canfyddiadau allweddol a gynhwysir yn y dogfennau fframwaith paratoadol a oedd yn Atodiad i'r adroddiad. Rhannwyd hyn â Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd yr adroddiad, ym mis Mawrth 2018, fod 6,407 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Roedd hyn yn gynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 34%; ni ellir cysylltu'r cynnydd hwn â chyni ariannol yn unig.

Yn 2018, gostyngodd nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal 2%. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y plant sy'n gadael y system ofal 10% yn ogystal.

Mae data cenedlaethol hefyd yn tynnu sylw at rai patrymau nodedig eraill. Er enghraifft, mae 24.6% o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir (1,575) a 5% yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru (320). Bydd rhesymau da pam mae rhai o'r plant hyn yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal (e.e. lleoliad gyda theulu neu ffrindiau neu ddatblygu dulliau rhanbarthol o ddarparu darpariaeth arbenigol), ond cydnabyddir bod eraill yn cael eu lleoli ymhellach i ffwrdd oherwydd nad oes darpariaeth addas yn lleol. Dechreuwyd mynd i'r afael â rhai o'r materion sylfaenol trwy'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant a llinynnau gwaith eraill sy'n rhan o'r rhaglen Gwella Deilliannau i Blant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd eisiau manteisio ar y cyfle hwn i archwilio gydag awdurdodau lleol y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau o amgylch lleoli plant a phobl ifanc y tu allan i'r sir ac yn drawsffiniol, er mwyn sicrhau y gellir gosod mwy o blant yn agosach i'w cartref lle mae hynny er eu lles nhw. Cadarnhawyd bod mwy o blant yn derbyn gofal yng Nghymru nag yn Lloegr, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bendant a allai gadarnhau hyn yn llawn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yr hoffai weld Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru i ddeall y cyd-destun y mae sefydliadau'n gweithio ynddo yn well ac i gyd-gynhyrchu cynlluniau lleihau disgwyliadau realistig a phwrpasol sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y plant sydd mewn gofal, gan barhau i wella deilliannau'r rheini sydd eisoes mewn gofal neu sy'n gadael gofal. Bydd hyn yn galw am ddadansoddiad manwl o'r data presennol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn helpu i ddeall yn well y pwysau sydd o fewn y system a sut y gellir ei leddfu.

Cynhaliwyd ymweliad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 10 Mai 2019 lle cyfarfu swyddogion o Lywodraeth Cymru â'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, a chydweithwyr o'r adran gyfreithiol.

Datblygwyd fframwaith sgwrsio o'r uchod a roddodd sylw i'r themâu canlynol:

- Lleihau'r galw am ofal a nifer y plant sy'n mynd i ofal;
- Darparu lleoliadau cadarnhaol a sefydlog (gan gynnwys manylion y cwestiynau allweddol ar y mater hwn);
- Gwella strategaethau gadael sy'n hwyluso gadael gofal;
- Rheoli'r busnes;
- Cyd-gynhyrchu targedau sydd wedi'u teilwra.

Pan fydd yr holl ymweliadau wedi'u cwblhau, bydd adroddiad cyffredinol yn cael ei goladu a'i rannu gyda grŵp technegol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog. Bydd yr

adroddiad cyffredinol yn tynnu sylw at y negeseuon allweddol a hefyd yn nodi rhai camau i'w cymryd yn genedlaethol. Yn ogystal, bydd y grŵp technegol yn ystyried monitro ac adolygu.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 62 yr adroddiad ac achosion o feichiogi ailadroddus. Gofynnodd sut y gellir atal achosion o feichiogi ailadroddus ymysg menywod ifanc.

Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod prosiect o'r enw *Reflect* wedi bod ar waith am oddeutu'r 12 mis diwethaf, ar ôl iddo gael ei gychwyn gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar fodel o Loegr. Nod y fenter hon yw annog menywod ifanc i oedi a meddwl am y canlyniadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â beichiogi, er enghraifft os ydynt yn rhy ifanc i allu gofalu am blentyn yn ddigonol, oherwydd rhesymau megis bod yn ddi-waith a pheidio â chael eu cartref eu hunain ac ati. Yn ogystal, pwysleisiodd y prosiect fesurau ataliol y gallent droi atynt i atal beichiogrwydd, fel dulliau atal genhedlu. Gellid cyflwyno adroddiad ar y prosiect hwn i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Roedd y Cadeirydd o'r farn ei bod yn bwysig monitro nifer y PDG yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y sefyllfa o ran PDG wedi bod yn sefydlog ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers cryn amser, a bod y niferoedd mewn gwirionedd yn dechrau gostwng yn araf. Roedd lleoliadau y tu allan i'r sir / y tu allan i Gymru hefyd yn lleihau, ychwanegodd.

Ychwanegodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau Achosion PDG Gorchymyn Llys.

Gofynnodd yr Arweinydd pam roedd cynnydd yng nghanran y PDG yn y grŵp 5-9 oed, yn enwedig o ystyried y gwaith da sydd wedi cael ei wneud ac sydd wedi arwain at draean yn llai o bobl ifanc yn ymuno â'r system ofal yn ystod blynyddoedd diweddar.

Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y byddai hi a'r Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn ystyried hyn, gan nad oedd unrhyw reswm amlwg yn cadarnhau'r cynnydd uchod.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd os oedd unrhyw ddata sy'n cadarnhau nid yn unig nifer y plant sydd wedi ymuno â'r system ofal, ond hefyd os oedd eu rhieni / gofalwyr yn rhan o'r system.

Dywedodd swyddogion y byddent yn ymchwilio i hyn ac yn coladu'r data priodol yn unol â hynny, ac yn darparu'r wybodaeth i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

CYTUNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet wedi nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

200. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30